# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 133** **MAWRTH 1987**


# CAWL CYNNEN

Mae sefyllfa ariannol drychinebus Coleg y Brifysgol Caerdydd yn peri bygythiad difrifol i'r Gymraeg yn y Brifddinas. Penderfynwyd dileu cymorthdal y Coleg i Theatr y Sherman, ac mewn adroddiad a baratowyd gan Bwyllgor o Ddeoniaid y Coleg, crybwyllwyd cau'r Adran Gymraeg.

Ers sefydlu Theatr y Sherman yn nechrau'r saithdegau gwelwyd llwyfannu dros ddau gant o berfformiadau yn y Gymraeg gan wahanol gwmniau. Yn ystod y cyfnod diweddar llwyfanwyd cynyrchiadau Cymraeg mewn mannau eraill megis y Chapter, Theatr Saint Stephen, a Chlwb Ifor Bach. Eto, heb os, y Sherman yw prif ganolfan y Theatr Gymraeg yn y Brifddinas ac fe fuasai cau'r theatr yn golled enfawr.

Mae hanes y Sherman wedi bod yn un dymhestlog ers ei sefydlu yn y saithdegau cynnar. Defnyddiwyd rhodd o £370,000 gan deulu'r Sherman i Goleg y Brifysgol i'w adeiladu, ynghyd â £63,500 ychwanegol o gronfa'r Coleg. Yn flynyddol, cyfrannwyd symiau enfawr o gyllid y Coleg tuag at gostau rhedeg y Theatr, ee £292,000 dros y pedair blynedd cyntaf. Yn y blynyddoedd diweddar, teimlai llawer o fewn y Coleg nad oedd Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrannu digon tuag at y costau. Penderfynwyd y llynedd ei bod hi'n hurt i Goleg oedd yn wynebu dyled o dros £3.5 miliwn i gyfrannu arian tuag at redeg y theatr, a hynny pan nad oedd gan y Coleg Adran Ddrama.

Yn syth wedi penderfyniad Senedd y Coleg i ddileu'r cymorthdal, sefydlwyd ymgyrch gref i achub y theatr. Crybwyllwyd y syniad o sefydlu cwmni cyfyngedig i redeg y Sherman ac i'w gwneud yn gwbl annibynnol o Goleg y Brifysgol. Enillwyd buddugoliaeth dros dro pan benderfynodd y Coleg y buasai'n gohirio gweithredu y penderfyniad i atal cymorthdal y Sherman am ychydig fisoedd.

Y mae holl hanes y Sherman yn adlewyrchu i raddau syniadaeth Prifathro'r Coleg o sicrhau datblygiadau uchelgeisiol drudfawr. Bu hanes Bill Bevan fel Prifathro yn un mwy lliwgar a dadleuol na hyd yn oed y Sherman.
Penodwyd Bevan yn Brifathro yn 1966, a'r disgwyl yw y bydd yn ymddeol ym mis Gorffennaf eleni. Yn ystod ei flynyddoedd wrth y llyw, sicrhaodd gynnydd aruthrol yn nifer y myfyrwyr, yn nifer adrannau'r Coleg ac yn y neuaddau preswyl - hyn ar gost enfawr. Yn 1977 penodwyd bargyfreithiwr i ymchwilio i system apwyntio'r Coleg ar ol i'r Prifathro Bevan sgrifennu at un o'i gyn-gydweithwyr yng Nghorllewin Affrica yn ei wahodd i ymgeisio am swydd. Beirniadodd ei adroddiad y Prifathro am fod yn rhy unbenaethol.

Mae'r Prifathro yn ôl pob son wedi bod yn gefnogol iawn i safle'r Gymraeg yn y Coleg. Mae un o'i feibion wedi dysgu'r Gymraeg. Yn ôl un cyn-ddarlithydd yn y Coleg, "Bydd 'na fwy o fygythiad i safle'r Gymraeg wedi ymadawiad Bevan".

Ers dechrau'r tymor, y mae'r Prifathro wedi wynebu ymosodiad cyson ar ei awdurdod. Pasiwyd cynnig o ddiffyg hyder ynddo gan Senedd y Coleg, ac o fewn pythefnos 'roedd Cyngor y Coleg yn gofyn iddo ymadael a chadair y cyfarfod. Yn ei ffordd ddi-hafal anwybyddodd y Prifathro yr ymosodiadau arno.

Yn y mis diwethaf llwyddodd y Prifathro i gael cefnogaeth annisgwyl o du Undeb y Myfyrwyr - yr union garfan a fu fwyaf croch eu beirniadaeth ohono yn y gorffennol. Cred y myfyrwyr fod y Prifathro yn cael ei erlyn ar hyn o bryd am iddo sefyll yn gadarn yn erbyn cwtogi ariannol Pwyllgor Grantiau'r Brifysgol.

Yn y mis diwethaf hefyd cyhoeddwyd y bydd un o brif swyddogion Prifysgol Warwick yn cynnal archwiliad o holl weinyddiaeth y Coleg. Disgwylir enwi olynydd i Bill Bevan fel Prifathro cyn diwedd y mis.

Yn ôl yr hyn a ddealla'r 'Dinesydd', y mae'n debyg bod y Pwyllgor Grantiau wedi crybwyll y buasent yn fodlon rhoi cymorthdal i'r Coleg i'w achub o'i strach ariannol. Byddai hynny ond yn digwydd o dan amodau penodol. Y prif amod fyddai cadarnhad bod Coleg y Brifysgol yn derbyn termau'r uno arfaethedig gyda'r Athrofa. Mae bron yn sicr hefyd y gwelir crebachu helaeth ar nifer y myfyrwyr ac y gwelir cau ambell i adran.

Un o'r adrannau a fyddai fwyaf o dan fygythiad fyddai'r Adran Gymraeg. Cafwyd awgrym o hyn yn y "Cynllun Academaidd" a baratowyd gan Bwyllgor Deoniaid y Coleg, ac a dderbyniwyd gan Senedd y Coleg. Beirniadwyd yr Adran am gael ratio staff/myfyrwyr rhy uchel a chrybwyllwyd y dylid cael cyllid i'r Adran o'r tu allan i'r Coleg. Anwybyddwyd arbenigrwydd yr Adran a'r diffyg mewn adnoddau sydd yn ei hwynebu yn ddyddiol. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn benderfynol o wrthwynebu unrhyw ymgais i gau'r Adran. Un peth sydd yn sicr yw bod cyfnod cyffrous a chythryblus yn wynebu Coleg y Brifysgol Caerdydd.

# CURADUR NEWYDD

Yn sgil ymddeoliad Mr. Trefor Owen o'i swydd fel curadur Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, penodwyd ei olynydd ddiwedd Mis Chwefror, sef y Dr. Geraint Jenkins. Er nad oedd Dr. Jenkins ymysg yr ymgeiswyr gwreiddiol am y swydd, 'does dim dau bod ei gyfuniad o allu academaidd a phrofiad gweinyddol ym myd yr amgueddfeydd wedi sicrhau mai ef yw'r person i arwain yr Amgueddfa Werin yn y blynyddoedd nesaf a all weld cryn newid yn yr Amgueddfa.



Mae Dr. Jenkins yn hannu o Langrannog. Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Aberteifi, Coleg y Brifysgol Abertawe a Choleg y Brifysgol aberystwyth. Bu'n Is-geidwad Amgueddfa Bywyd Gwledi Lloegr ym Mhrifysgol Reading, cyn ymuno ym 1960 â staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru. Ef oedd yn gyfrifol am sefydlu Amgueddfa'r Diwydiant Gwlan yn Nrefach Felindre.

Fe'i penodwyd yn Guradur Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym 1979, ac fe bery i ofalu am honno dros dro yn ei swydd newydd. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd, a fydd yn cychwyn ar Ebrill 1af.

# LLYTHYRAU

Annwyl Gyfeillion

Bydd y mwyafrif ohonom mae'n debyg yn dathlu dydd ein Nawddsant Dewi mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bydd cannoedd, neu filoedd o gymdeithasau o bob math ledled Cymru yn trefnu rhyw weithgaredd penodol tua'r amser yma.

Tybed a gaf i fanteisio ar y cyfle i wahodd y cymdeithasau hyn i ystyried apêl Cefnogwyr y Nant? Ein nod yw codi £10,000 i dalu am baratoi tŷ i'r methedig yn Nant Gwrtheyrn. Eisoes codwyd £4,500 ers sefydlu'r gronfa fis Mai diwethaf. Buasem yn hynod o falch o gael cyfraniadau gan gymdeithasu Cymru i yrru'r gronfa yn ei blaen.

Ar ein prif achlysur Cymreig a oes gwell ffordd o fynnu dyfodol i'n hiaith. Mae llwyddiant dysgwyr y Nant yn galondid mawr i ni i gyd ac mae gwir angen paratoi adnoddau yno i'r methedig.

Hyderaf y bydd ysbryd Dewi yn ysgogiad ffrwythlon i'n hapêl.

Yn gywir

Moi Parri (Ysgrifennydd)

---

20 Lansdown Ave
Rhiwbeina
Caerdydd

Annwyl Ddarllenwyr

Tua 9 mis yn ôl, ymunodd fy ffrind a minnau â dosbarth 'Aerobics' lleol. Rydym wedi bod yn ffyddlon iawn dros y misoedd tra bod eraill wedi mynd a dod yn afrolaidd a rhai wedi gadael yn gyfangwbl.

Yn ddiweddar, clywais si bod teimladau yn erbyn y ffaith bod E. a minnau yn sgwrsio yn Gymraeg â'n gilydd ac efallai taw dyma'r rheswm bod rhai pobl wedi gadael y grwp. Er na allaf gredu fod yr olaf, os yn wir, yn fwy nag esgus a roddwyd gan bobl oedd wedi colli blas ar ddod, penderfynais i osod y mater o flaen y grwp.

Esboniais taw Cymraeg yw iaith cyntaf E. a minnau gyda'n gilydd a taw dyma'r modd naturiol o gyfathrebu, yn enwedig am faterion sy'n ymwneud â ni'n dwy yn bersonoi (e.e. y plant, materion hamdden). Os oedd person di-Gymraeg yn ein cwmni byddem bob amser (rwy'n gobeithio) yn siarad Saesneg ac am faterion oedd yn cynnwys y person arall. Ymddiheiriais os oedd rhywun wedi digio gan ddweud nad oeddwn yn deall pam oedd hynny.

Sylweb a gynigiodd un person (a hynny'n arweinydd y grwp oedd yn teimlo braidd yn swil ar y dechrau) oedd ein bod ni'n siarad amdani hi a theimlaf bod hyn efallai yn gyffredin i eraill (er na gyffesodd neb arall). Er mod i'n derbyn hwn i raddau (ond tybed pwy yw y bobl hyn sy'n drwgdybio 'clecs' ar unwaith?), y ffaith yw na fyddwn i byth yn dweud yn Gymraeg unrhywbeth na ddywedwn yn Saesneg.

Rwy'n siwr fod nifer o Gymry wedi cael profiadau tebyg.

Tybed pam mae agwedd rhai pobl mor wrthwynebus i Gymry sy'n siarad yn eu hiaith naturiol am bethau personol (D.S. Nid wyf yn cefnogi gwneud hyn os oes cwmni di-Gymraeg yn rhan o'r sgwrs). A fyddent yn teimlo'r un ffordd os oedd y bobl hynny yn Ffrancwyr, Almaenwyr neu unrhyw "estroniaid" eraill yn siarad eu hiaith eu hunain.

Ydi hi wir yn ymddangos yn haerllug? Ydi rhai pobl yn genfigennus efallai? Byddwn yn falch o ddarllen sylwadau darllenwyr eraill am y mater.

Fy nhyb i yw bod pobl sy'n byw yn hollol drwy'r iaith Saesneg ac heb amcan ei bod hi'n bosibl i fyw mewn unrhyw ffordd arall yn meddwl ein bod ni sy'n siarad Cymraeg yn mynd allan o'n ffordd i fod yn wrth-gymdeithasol ac yn "anodd".

Rwyf yn aml yn gwenu pan gofiaf am ferch mewn siop lleol yn gofyn (yn gwrtais ond yn hollol syn) wedi clywed fi'n siarad Cymraeg a'm merch (20 mis)... "Do you <u>really</u> think she understands what you're saying???"

Oes sylwadau?

Yn gywir

Eluned Rook

---

<u>DALIER SYLW</u>

Llythyr eto at Gymry Caerdydd a Disgyblion a Chyn-ddisgyblion Ysgolion Cymraeg Caerdydd.

Rwyn anfon llythyr eto i'ch atgoffa am ddiwrnod dathlu Canmlwyddiant Cymrodorion Caerdydd ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 4.

Yn y prynhawn am UN o'r gloch (newidiwyd yr amser oherwydd bod y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r Iwerddon yn cael ei chwarae ar y diwrnod hwn) - byddwn yn dadorchuddio Plac yn Ysgol Gynradd Parc Ninian, i gofnodi mai yn yr adeilad hwnnw yr agorwyd Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd, ac ar ôl y cyfarfod hwn bydd croeso i bawb dod i Festri'r Tabernacl am gwpaned o de. Rydym yn gobeithio gweld y rhan fwyaf o'r deunaw disgybl a ddechreuodd eu gyrfa yno ym Medi 1949, yn dod i'r cyfarfod, ac hefyd cynrychiolaeth o bob Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Cofiwch oni bai am y dechreuad yma ni fyddai gennych y fath lewyrch ar eich Ysgolion Cymraeg yn awr. Mae eich dyled yn fawr i'r Pwyllgor bychan a weithiodd mor galed i sefydlu yr Ysgol Gymraeg gyntaf hon, a'r rhieni a fentrodd anfon eu plant yno.

Am 7.30 y nos bydd cinio yn Sain Ffagan i Ddathlu Canmlwyddiant y Cymrodorion ac i lansio llyfryn gan y Dr J Gwynfor Jones, ar hanes Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn ystod y can mlynedd diwethaf. Pris y gyfrol yw £2. Y Gŵr Gwadd fydd Dr Prys Morgan, Golygydd "Transactions" Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch eto i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at gost y Plac, ac os dymuna unrhyw un arall gyfrannu nid yw'n rhy hwyr i anfon i Drysorydd y Cymrodorion, Mr Glyn Owen,
5 Maes yr Awel,
Radyr,
Caerdydd.

Susie Evans

Llywydd y Cymrodorion: Mr Gethin Griffiths
Ysgrifennydd: Mr Ifor Rees

---

OEDFA GOFFA A DADORCHUDDIO
COFEB
i'r
Diweddar Barchedig D T EVANS
yng Nghapel Minny Street
NOS WENER, MAWRTH 27ain
am 7.00 o'r gloch
Estynnir gwahoddiad cynnes

<u>AR WERTH</u>

Telyn George Morris (18 mis oed), 46 tant, a seinfwrdd estynedig. Mewn cyflwr gwych £4,000 (n.c.a.).
Ffon: 0970 828622

Croeso i'r Dr Ann Prys Davies sydd wedi symud i fyw yn Llandâf. Mae Ann, sy'n ferch i'r Arglwydd a'r Fonesig Gwilym Prys Davies, nawr yn Adran Geinocoleg Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd, ac yn gofalu am y genhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg y ddinas!

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

MAWRTH 9fed: Merched y Wawr yn dathlu Gwyl Ddewi yng nghwmni Robin ac Eleri Gwyndaf yn Festri Capel Minny Street cathays am 7.30.

MAWRTH 12fed: Cylch Cinio Merched Caerdyydd, gyda'u gwestelon Menna ac Aled Gwyn, yng Ngwesty Thatchers, heol Fidlas, llanisien am 7.30.

MAWRTH 18fed: 'Y Gadwyn'. Cymdeithas Capel Salem Canton. Noson gyda Moelwyn Preece yn y Festri am 7.30.

Mae angen arian ar y Dinesydd yn gyson. Os ydych am gyfrannu, cyfeiriad y Trysorydd newydd yw:
17, West Orchard Crescent
Llandaf.

# YR ATLAS

Mewn cyfarfodydd cyhoeddi a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Bangor ar 26 a 27 Chwefror gwelwyd gwireddu'r freuddwyd o gael atlas safonol yn y Gymraeg. Mae cyhoeddi Yr Atlas Cymraeg yn ffrwyth trafod golygyddol a gwaith addasu cartograffig manwl iawn. Gweithgor Panel Atlas Cymraeg Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a fu'n gyfrifol am yr addasu, dan gadeiryddiaeth Dafydd Orwig a diwygiwyd ffurfiau cannoedd ar gannoedd o enwau anheddau, arweddion ffisegol, taleithiau a gwledydd wrth baratoi'r atlas ar gyfer y wasg.

Ym mis Medi 1980 y penderfynodd Is-banel Atlas Cymraeg y Cyd-bwyllgor Addysg mai Certificate Atlas cwmni George Philip y dylid ei addasu i'r Gymraeg, a hynny ar ôl ystyried addasu atlasau nifer o wahanol gyhoeddwyr yn Lloegr a'r Alban. Sefydlwyd Gweithgor o chwech o arbenigwyr i amlinellu'r polisi golygyddol ar gyfer yr addasu ac i ymgymryd â'r gwaith manwl o baratoi'r 177 tudalen o fapiau, lluniau a diagramau a'r 38 tudalen o ystadegau a mynegai ar gyfer yr argraffiad Cymraeg. Cyfarfu'r Gweithgor bymtheg gwaith, chwe gwaith am ddiwrnod a naw gwaith am ddeuddydd, gan weithio'n aml o ddeg y bore tan unarddeg y nos!




Bu'r Gweithgor yn ffodus iawn i gael cymorth parod ysgolheigion yng Nghymru ac mewn llawer gwlad arall. Wrth ffurfio polisi cafwyd cyngor gan ddaearyddwyr ac ieithegwyr sawl gwlad fach arall, o Ynys yr Iâ i'r Ffindir, a derbyniwyd cyfarwyddyd oddi wrth lysgenadaethau, sefydliadau ac unigolion ar egwyddorion neu ar enwau lleoedd penodol.

Nid gwaith hawdd oedd datblygu polisi ar gyfer addasu enwau tramor. Wrth gychwyn ar y gwaith yr oedd y Gweithgor yn ymwybodol iawn o'r ffactorau a ganlyn: yr angen am atlas Cymraeg i ymestyn tiriogaeth yr iaith; yr angen i barchu enwau tramor yn eu priod ieithoedd; y ffaith anochel ein bod yn byw yng nghysgod iaith rymusaf y byd a bod defnyddwyr yr atlas hwn yn debyg o weld mapiau Saesneg yn amlach o lawer na rhai Cymraeg.

Penderfynwyd defnyddio enwau brodorol ar drefi a phentrefi yn fuan iawn ond nid mor rhwydd y penderfynwyd beth i'w wneud ag arweddion ffisegol. Y cynnig cyntaf oedd trosi'r cyfan gan roi ffurfiau megis Ynys Aderyn, Bae Di-amau, Penrhyn Siom, Mynyddoedd Afon Eog, Cronfa Clwt Rhyg ac ati. Pan ddaeth y Gweithgor at Glyn Cysgod Angau bu'n rhaid i'r Golygydd weiddi, "Wo! rydan ni wedi mynd i'r gors!" Penderfynwyd newid cyfeiriad wedyn gan drosi'r elfen gyntaf yn unig, er enghraifft, afon am bob river, bahr, chu, darya, he, ho, irmak, kiang, a moron neu cadwyn am bob range, alin, cordillera, gebrige, ling, nuruu, phanom, serra, sierra, shan, shanmo, tau a yoma. Sylweddolwyd wedyn nad oedd sicrwydd bob tro ynglŷn ag union ystyr rhai geiriau ac nad oedd mwyafrif yr atlasau tramor yn trosi'r rhan fwyaf o'r arweddion ffisegol, yn arbennig yn Asia. A dyma newid cyfeiriad unwaith eto a chyfieithu'r holl elfennau Saesneg o bay i sound ac o chain i strait, yr elfennau Ffrangeg cap, fle, mont a pointe a'r elfen Eidaleg monte. Gan nad oedd y Gweithgor yn cyfieithu'r holl ieithoedd eraill, penderfynwyd cynnwys geirfa a fyddai'n gymorth i ddeall cannoedd lawer o enwau ffisegol ac enwau anheddau. Cyfuniad o egwyddorion a synnwyr felly sy'n sail i bolisi addasu enwau yn yr atlas a cheir crynodeb ohonynt yn y Rhagair.

Nid mapiau topograffig yn unig a geir yn Yr Atlas Cymraeg; ceir hefyd fapiau yn seiliedig ar themau megis Amaethyddiaeth, Diwydiant a Phŵer, Cyfathrebau, Poblogaeth. Ar ddechrau'r atlas ceir golwg eang ar gyfansoddiad y byd a'r atmosffer o'i amgylch, a dosbarthiad ei adnoddau a'i boblogaeth. Mae gweddill yr atlas yn ymdrin â phob un o'r cyfandiroedd gan ganolbwyntio ar rai gwledydd a rhanbarthau penodol a'u nodweddion diddorol. Er enghraifft dangosir pwysigrwydd diwydiant a thrafnidiaeth ar afon Rhein yng Ngorllewin yr Almaen a'r Iseldiroedd, gwahaniaethau rhanbarthol yn yr Eidal, twf diwydiannol aruthrol Japan a chynnyrch economaidd Gogledd America. Mae i'r atlas dros 100 tudalen o fapiau, yn cynnwys dros 20 tudalen o fapiau ar Ynysoedd Prydain - yn ffisegol, gwleidyddol ac economaidd. Ceir hefyd ystadegau cynhwysfawr ynglyn â phoblogaeth prif wledydd a dinasoedd y byd, cynnyrch mewnwladol crynswth, masnach ryngwladol ac ystadegau hinsawdd.

Argreffir yr atlas safonol a deniadol hwn mewn lliw llawn a'i gyhoeddi am bris rhesymol. Gobeithir y bydd defnydd cyson arno mewn ysgol a chartref a swyddfa ac ar y cyfryngau. Gellir prynu copiau yn eich siop lyfrau Cymraeg leol.

Manylion Cyhoeddi

Teitl: Yr Atlas Gymraeg

Golygydd: Dafydd Orwig

Cyhoeddwr: George Philip a'i Fab Cyf, dan nawdd Cynllun Gwerslyfrau ac Adnoddau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.

Pris: £4.95

# RHOSYN A RHITH

Rhosyn a Rhith yw'r ffilm Gymraeg gyntaf i'w dangos mewn sinemau ledled Prydain. Comisiynwyd y ffilm gan S4C ac fe'i dangosir o dan y teitl Coming up Roses gyda is-deitlau Saesneg.

Rhyddheir y ffilm i'r sinemau ar ddydd Gwener 6 Mawrth ac o'r diwrnod hwnnw ymlaen bydd i'w gweld yn y canolfannau canlynol:

ABC, Caerdydd
Filmcenta, Abertawe
Commodore, Aberystwyth
Plaza, Bangor



Cynni diwydianol yw cefndir Rhosyn a Rhith. Does fawr o obaith i ddyfodol sinema'r 'Rex' yn y cwm - gyda diweithdra yn eu wynebu does fawr o obaith i Trefor a Mona chwaith. Benthyg arian yw'r unig ffordd y gall Trefor dalu ei ddyledion - ond yn anffodus daw'r galw am yr ad-daliad yn fuan iawn. Wrth wynebu'r helbulon hyn, y mae'r ddau yn dibynnu ar ddyfeisgarwch i oresgyn eu problemau, gan obeithio y bydd pethau yn newid dros nos fel petai. Ond er mai tristwch diweithdra sy'n gefndir i'r ffilm comedi ysgafn yw hi gyda'r hiwmor yn rhedeg drwyddi.

'Nid yn unig yr iaith sydd yn wahanol' medd Dafydd Hywel, 'ond mae naws wahanol i'r ffilm hon.' Y gwir amdani yw bod Rhosyn a Rhith yn ffilm Cymreig. Yr actorion eraill yw W J Phillips, Glan Davies, Gillian Elisa Thomas ac Ifan Huw Dafydd. Cyfarwyddwr y ffilm yw Stephen Bayly, cyfarwyddwr y gyfres Joni Jones a'r ffilm Aderyn Papur.

Eisoes derbyniodd ganmoliaeth uchel yng nghwyliau ffilm Cannes, Llundain a Dulyn. Felly os nad ydych yn mynychu'r sinema yn gyson beth am roi cynnig ar y ffilm arbennig hon?

## Y GYMRAEG A 'MARKET FORCES'

Mae i'r clwyf 'dysgu Saesneg er mwyn dod ymlaen yn y byd bedigri hir.

Roedd Dic Siôn Dafyddion yn bla dros bedair canrif yn ôl ac mi roddodd Brad y Llyfrau Gleision hwb bellach i'r meddylfryd o is-raddoldeb ieithyddol. Gwneud pres oedd wrth ei gwraidd hi wrth gwrs. Mae pawb isio byw, ac os oedd gwell bywoliaeth i'w chael trwy'r iaith Saesneg na'r iaith Gymraeg, hei lwc. Ac mae'r canlyniad i'w gweld heddiw yn nirywiad y Gymraeg.

Ond a ydy'r rhod yn troi?




Wrth edrych drwy dudalennau'r Property Mail, cyhoeddiad sy'n dod yn sgil y Western Mail bob penwythnos, dyma daro ar ddau hysbyseb diddorol. Un tŷ yn cael ei frolio ar y dudalen flaen fel hyn: 'Likely to be of special interest in several Cardiff circles, including the town's Welsh speaking community' Ac un arall yn cael ei gymeradwyo am ei fod 'close to Welsh school'.

Ydy hyn yn rhywbeth i ymfalchio ynddo? Os mai cael ei hailhethol wnaiff Margaret Thatcher, ysywaeth, fel y mae'r rhagolygon barn yn ei ddarogan, gan barhau i bregethu am bwysigrwydd 'market forces' mae'n debyg ei bod yn well i'r Gymraeg fod yn cael ei hystyried yn fantais mewn marchnadoedd tebyg i'r farchnad dai nag yn anfantais.

Beth ydy barn darllenwyr Y Dinesydd?

Ann Beynon

### AR WERTH

Fflat bach tlws ar werth yn ymyl Ysbyty Llandochau. Hyfryd i yn neu i ddau i fyw ynddo neu gwych fel buddsoddiad. (Digon o gyfle i'w osod.) Cysyllter ☎ Phenarth 701773 am fanylion pellach.

# Colofn Shân Emlyn



Fum i erioed yn hoff o fis Chwefror, er mai hwnnw yw mis fy mhenblwydd, efallai oherwydd hynny erbyn hyn! Ond, na - rhyw fis ynghanol dim ydio rywsut - cyffro'r Nadolig wedi hen fynd, ein gwyliau cenedlaethol ymhell ar y gorwel, a'r tywydd yn llwyd, oer a diflas. Rhyw fis digon cythryblus a chymysg fu hi eleni, ond â rhai uchafbwyntiau iddo i mi.

Ddechrau'r mis, mynd i ginio ffarwel ffrind i Owen a minnau, Alwyn Roberts yn y BBC yn Llundain. Cawsom fwynhad mawr o fod yng nghwmni hen gyfeillion. Drannoeth clywed bod un o'r cyfeillion hynny wedi colli'i swydd mewn dull creulon a dideimlad. Roedd yn gwbwl anymwybodol o'i dynged yn rhialtwch y noson cynt. Bu'r cyfaill hwn yn ffrind da i Gymru yn ystod ei flynyddoedd yn y BBC - mae'n Gelt i'r carn, Albanwr sydd wedi dysgu'r Gaeleg am y cred na fyddai'n Albanwr cyflawn heb wneud hynny. Teimlo i'r byw drosto ynghanol ei helynt. Rhyfedd o fyd!

Drannoeth hedfan i Denerife am wythnos yn yr haul. Braf oedd gallu hedfan o Faes Awyr y Rhŵs yn hytrach na gorfod gwneud y daith ddiflas i Heathrow neu Gatwick. Euthum a'r papur ffeil yma efo mi, papur sgwennu llythyrau tramor, a phapur sgwennu cyffredin gan fwriadu cyflawni sawl tasg yn yr hamdden yno. Wedi cyrraedd ac ymlacio yn yr haul daeth ton o ddiogi na fu ei debyg drostai. Nid oedd gennyf awydd gwneud dim, dim ond gorwedd, darllen, hel meddyliau a synfyfyrio. Daeth y papurau sgwennu i gyd yn ôl yn lan a dilychwin. Gyda chryn drafferth y llwyddais i sgwennu chwe cerdyn post!

Uchafbwynt yr wythnos honno oedd cysylltu â chwpwl fu'n garedig i Nain, mam Owen. Cawsom groeso tu hwnt ar aelwyd Trefor a Sybil Edwards, y ddau wedi ymgartrefu ar yr ynys ers blynyddoedd. Y mae Trefor yn nai i Gwilym Deudraeth a Fanny Edwards, a Sybil yn hannu o'r Caerau, Maesteg ac yn ffrind mynwesol i Norah Isaac. Melys fu'r gwmniaeth, y bwyd a'r gwin a'r haul ar lan y pwll nofio. Cawsom flas yn gwrando ar y ddau yn dwyn atgofion, y naill am fro'r chwareli a'r llall am fro'r pyllau glo a chael sgwrs hefyd ar sut y maent yn tyfu bananas ar y fferm. Fel y dwedodd Owen, hyd byth eto ni allwn edrych ar fanana heb gysylltu hynny â Gwilym Deudraeth a Fanny Edwards! Rhyfedd o fyd yr eildro'r mis hwnnw, ond rhyfeddod mwy dymunol na'r cyntaf.

Tra ar ein gwyliau am ddeg o'r gloch y nos gwrando ar newyddion y World Service a chlywed am farwolaeth Wynford Vaughan Thomas a meddwl, dyna gyfnod arall wedi dod i ben. Tra'n mwynhau'r gwyliau mewn apartment cysurus o'r enw "Hafod" ceisiais gysoni pam bod mynd yno'n iawn ond y buasai'n groes graen i fynd i "Hafod" yng Nghymru. Pam 'dwch? Wn i ddim beth yw'r ateb, darbwyllo fy hun mai un rheswm efallai yw nad oes berygl yn y byd i'r iaith Sbaeneg ddihoeni!

Dod yn ôl i fwynhau cinio ffarwel arall - cinio ffarwel S4C i Alwyn Robert a Dr Glyn Tegai Hughes. Noson i'w chofio oedd honno, noson gartrefol Gymraeg, cwmni diddan ac yn nhraddodiad y Cymry, bu chwe anerchiad! Ond - pob un ohonynt yn afaelgar goeth, llawn hiwmor a neges gan bob un oedd yn werth clustfeinio arnynt. Yno y cefais y teimlad braf hwnnw ddaw ambell waith - mi ryda ni'n dipyn o genedl!

Drannoeth hynny wedyn - draw i bwyllgorau Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd ac ymdeimlo â'r brwdfrydedd sydd yn y gornel hon o Went. Cael cwmni nifer o gyfeillion yno eto. Daeth Norah Isaac yn ôl yma am de - a dyna ni'n ôl yn Nhenerife eto. Er mor felys chwerw fu profiadau'r mis - eto - rhywsut roedd rhyw wead rhyfedd yn nigwyddiadau Chwefror 1987, i mi.

# PENARTH A DINAS POWIS

### CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWIS

Ar noson oer o Ionawr daeth nifer deilwng o aelodau'r Gymdeithas ynghyd i fwynhau Bwffe a Sgitls. Cafwyd cystadlu brwd ac ar ddiwedd noson hwyliog i godi'r galon ganol Gaeaf, roedd pawb yn gytun mai Dennis Morgan oedd y pencampwr. Wel dyn Den!!

Cystadlu brwd aeth a hi eto yn Chwefror - pôs i'r pen y tro hwn. Peter a Janet Davies oedd wrth y llyw. Roedd gwen ar wyneb y ddau wrth weld aelodau'r tri thîm yn gwingo dan bwysau'r cwestiynau annodd. Tybed ai ni oedd yn dwp? Diolch i Peter a Janet am drefnu noson ddifyr.

Cofied pawb am y cinio mawreddog i ddathlu Dydd Gwyl Ddewi. Byddwn yn ymgynull yng Nghlwb B.P. y Sili ar yr 2 o Fawrth i groesawu'r gwestai, y Prifardd Dic Jones. Daw Catrin yno i'n diddanu gyda'i thelyn a Janet a Glenda i ganu.

Llongyfarchiadau i Alun, mab Rowland a Moyra Owen, Llandochau ar ei ddyweddiad a Sarah Young o'r Barri ar Ddydd Gwyl Sant Ffolant. Hefyd pob dymuniad da i Alun yn ei swydd newydd fel Rheolwr y Siop Bacwn/ Cig Moch yn Albany Rd. Cofiwch alw i mewn am olwyth o facwn a sgwrs yn y Gymraeg.

Aeth Rhian, merch Rowland a Moyra un cam ymhellach na'i brawd. Fe briododd hi a Lance Gibbon - pob lwc a Phriodas Dda i'r par ifanc.

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Dyna Restr Testunau Eisteddfod 1988 yn barod i fynd i'r Wasg! Fe fydd yn ymddangos i fyd eiddgar ar y Maen Llog yng Nghylch yr Orsedd yng ngerddi Tŷ Tredegar ar bnawn Sadwrn, Mehefin 27, 1987. Gwnewch nodyn o'r dyddiad yn ddioed, a thra bo'ch dyddiadur allan, ychwanegwch y wledd o weithgareddau sy'n cael eu trefnu fel rhan o Ŵyl y Cyhoeddi.

Efallai ein bod braidd yn swil ac yn or-bryderus yng Nghasnewydd, ond pan roeddem yn dechrau trafod patrwm Gŵyl y Cyhoeddi, teimla rhai ohonom na allem feddwl yn nhermau wythnos o weithgareddau, a byddai pob cydymdeimlad a ni pe cyfyngwyd yr Ŵyl i dridiau. Credwch hyn neu beidio, diwedd y gan yw Gŵyl fydd yn estyn dros naw diwrnod, a hynny ar ôl i ni orfod cwtogi ar yr awgrymiadau a gwrthod nifer o syniadau. Ar un adeg, roedd posibilrwydd y byddai'r Ŵyl yn para tan y Nadolig!

Fe fydd hysbysiadau swyddogol yn ymddangos yn y Wasg mewn da bryd, ond dyma sgŵp i ddarllenwyr y DINESYDD - braslun o'r Gweithgareddau:-

Sadwrn, Mehefin 20
Ysgol Undydd Eisteddfodol i Ddysgwyr yn Nhŷ Rhydychen, Rhisga.

Sul Mehefin 21
Oedfa anenwadol yng Nghadeirlan Casnewydd am dri o'r gloch dan arweiniad Canon D Gareth Lewis.

Llun, Mehefin 22
Sioe Ffasiynau yn y Ganolfan Hamdden gyda sylwebaeth ddwyieithog.

Mawrth, Mehefin 23
Noson Werin yn y Ganolfan Hamdden gan blant Ysgolion Cynradd y fro.

Mercher, Mehefin 24
Darlith Saesneg gan yr Athro Gwyn A Williams a Swper Penglin ac adloniant i ddilyn yn Ystafell Glanyrafon, y Ganolfan Hamdden.

Iau, Mehefin 26
Cyngerdd Ysgolion Uwchradd y Fro yn y Ganolfan Hamdden.

Gwener, Mehefin 26
Rifiw Cymraeg yn Ystafell Glanyrafon, y Ganolfan Hamdden.


Sadwrn, Mehefin 27
Dawnsio Gwerin yng nghanol y dre yn y bore.
Y Cyhoeddi yn y pnawn, a chyngerdd gynta Côr yr Eisteddfod yn y Ganolfan Hamdden yn yr hwyr.
Yn hwyrach fyth, Dawns Blas Cas.

Sul, Mehefin 28
Diwrnod o ymlacio haeddianol i bawb - gweithwyr a chefnogwyr - yn cychwyn ar ôl cinio gyda thaith ar y gamlas o Bencroesoped i Lanwenarth, a dychwel i Lanofer i wrando ar Hywel Teifi Edwards yn darlithio.
Te Parti ar lan y gamlas i gloi'r Ŵyl.

Rwy'n hyderus y bydd teithio helaeth a chyson ar y ffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd dros gyfnod Gŵyl Cyhoeddi Casnewydd.

Roeddwn yn son gynnau am ein diffyg hyder, ac mae profiad yr Is-bwyllgor Drama parthed trefnu'r Rifiw yn enghraifft o hyn. Penderfynwyd hysbysebu yn y wasg leol yn gofyn i'r neb a fyddai â diddordeb mewn creu, cynhyrchu a chyflwyno Rifiw Cymraeg gyd-gyfarfod ar awr benodedig. Daeth y trefnwyr ynghyd hanner awr o flaen yr amser, a'r teimlad oedd na ellid disgwyl ymateb i hysbysiad fel hyn, ond ni wnai ddrwg o gwbwl i adael un noson yn rhydd ar drothwy'r diwrnod mawr. Daeth deunaw ynghyd i'r cyfarfod! Cymaint y brwdfrydedd erbyn diwedd y noson nes bod son am lwyfannu Rifiw Hwyrnos ar hyd wythnos yr Eisteddfod yn 1988. Amser a ddengys - wats thys spês!

Gwynn Tudno




celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.


LOGO I BRIFWYL 1989

Mae Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989 bellach wedi dewis logo i'r Ŵyl, a hwnnw wedi'i gynllunio gan artist o'r ardal. Merch o Benmachno yw Anne Lloyd Morris - bu'n dilyn cwrs celf ym Mholitechnig Lerpwl ac mae yn awr yn bennaeth yr Adran Dylunio yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst. Mae wedi cynllunio cloriau llyfrau a recordiau, mae'n gartwnydd o fri ac wedi arddangos gwaith ffotograffiaeth yn Lerpwl a Llundain.

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru**
**Dyffryn Conwy A'r Cyffiniau**

Cafodd y syniad i'w logo drwy gyfuno eryr Tywysogion Gwynedd a ffurf y Bont Fawr, Llanrwst. Roedd cysylltiad cryf rhwng nifer o Dywysogion Gwynedd ac ardal yr Eisteddfod. Adeiladodd Maelgwn Gwynedd gastell yn Neganwy ac fe'i claddwyd yn Eglwys Llanrhos; adeiladodd Owain Gwynedd gastell yn Nolwyddelan ac yno y ganwyd Llywelyn Fawr. Roedd gan Llywelyn Fawr gysylltiad agos ag Aberconwy, Trefriw a Llanrhychwyn hefyd, ac mae ei arch garreg i'w gweld erbyn hyn yn Eglwys Llanrwst.

Yr eryr oedd ar arfbais y tywysogion hyn, ac fe'i gwelid hefyd ar arfbais teulu'r Wynniaid oedd â phlasdai yng Ngwydir a Chonwy. Mae'r cynllun wedi llwyddo i gynnwys nod cyfrin yr Orsedd yng nghynffon yr eryr yn ogystal.

Mae ffurf pont enwog Llanrwst i'w gweld yn eglur yn y logo, yn ogystal â lli'r afon oddi tani'n cynrychioli'r dyffryn a'r cyffiniau. Codwyd y bont hon ym 1636 gan gysylltu yr hen sir Gaernarfon â'r hen sir Ddinbych - yn yr un modd mae'r Ŵyl Genedlaethol yn pontio'r holl gelfyddydau yng Nghymru ac yn codi pont rhwng y Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr.

Mae Pwyllgor Llywio Eisteddfod 1989 newydd gwblhau blwyddyn o waith erbyn hyn ac wedi sefydlu 32 o bwyllgorau apel lleol i gyrraedd at darged lleol o £110,000.


Cynhelir Ffair Grefftau gan Makers' Guild in Wales a'u gwesteion Cylch Crefftwyr Penfro, ar Ddydd Sadwrn, Mawrth 28ain yn Neuadd Dewi Sant rhwng 10 y bore tan 5. Mynediad am ddim.

# TORTH O FARA

Mae'r broses o wneud marmalêd traddodiadol yn cymryd tipyn o amser ond fe ellir lleihau'r gwaith mewn sawl ffordd. Gellir defnyddio'r proseswr bwyd neu briwell i falu'r croen; mae'n bosibl coginio'r croen mewn sosban frys (ond gofalwch nad yw 'r sosban yn rhy llawn, fe allai y croen dagu'r fent a rhwystro'r stem rhag dianc) ac 'rwyf wedi dod o hyd i ryseit sy'n defnyddio'r ffwrn meicro-don. Dim ond dau bwys o'r ffrwyth ellir eu defnyddio ar un pryd yn y ffwrn ac mae'n rhaid bod yn ofalus gyda'r berwi ar ôl ychwanegu siwgr gan wneud yn siwr bod y ddysgl ddefnyddir yn ddigon o faint i rwystro'r cymysgedd rhag berwi drosodd.

Defnyddiais i ddau bwys o'r ffrwyth a phedwar pwys o siwgr i wneud 6 pwys o farmalêd. Heb amcangyfri pris yr ynni ddefnyddiwyd i'w ferwi, 'roedd hyn yn gweithio allan yn rhesymol iawn - 30 ceiniog y pwys. Mae marmalêd diflas rhad yn 37 - 48 ceiniog y pwys yn y siopau a'r rhai ychydig gwell eu safon tua 65 ceiniog ac nid oes cymhariaeth i flas yr un a wneir gartref.

Dyma'r ryseit:

- 2 bwys o orennau Seville
- 4 pwys o siwgr bras
- 1 lemwn
- 4 peint o ddwr.

Mae siwgr arbennig ar gael sydd wedi ei wneud o grysialau mwy sy'n burach na siwgr bras cyffredin ac mae'n creu llai o ewyn (scum) ar wyneb y marmaled pan mae'n berwi; ond mae'r siwgr cyffeithio hyn yn ddrud i'w brynu. I wneud marmalêd tywyll ei liw ychwanegwch driog du neu defnyddiwch beth siwgr brown meddal yn y rysait.

Gellir berwi'r ffrwyth yn gyfan yn y dwr cyn echdynnu'r sudd a thorri'r croen yn fân neu ei ferwi ar ôl paratoi'r ffrwyth. Os oes amser, mae'n syniad da i adael y ffrwyth fwydo yn y dŵr dros nos i'w feddalu. Gofalwch fod y croen yn feddal ar ôl ei ferwi cyn ychwanegu'r siwgr, ni fydd yn meddalu ar ôl rhoi'r siwgr i mewn. Mae angen rhoi'r pith a'r pips mewn cŵd cotwm, ei glymu'n sownd ac yna ei ychwanegu i'r sudd pan fydd y croen yn berwi. Mae'r rhain yn cael eu berwi gyda'r sudd a'r croen er mwyn cael y pectin allan ohonynt sy'n gwneud i'r marmalêd setio. Wedi i'r ffrwyth feddalu tynnwch y cŵd allan a gwasgwch y sudd sydd ynddo i'r sosban. Ychwanegwch y siwgr a gwnewch yn siwr fod y cyfan ohono wedi toddi, dros wrês isel, cyn dod a'r gymysgedd i'r berw. Os bydd y siwgr yn berwi cyn iddo doddi fe geir gweadedd gritaidd. Mae'n well defnyddio crochan neu sosban breserfio ar gyfer berwi gan fod y dŵr yn troi'n anwedd yn gyflymach. Berwch y marmalêd am 15 - 30 munud (neu fwy) gan ofalu ei droi gyda llwy bren yn aml i rwystro'r gymysgedd rhag llosgi ar waelod y sosban. Mae eisiau ei ferwi'n gyflym er mwyn cyrraedd gwres uchel sy'n gwneud i'r marmalêd setio. Cychwynwch arbrofi'r marmalêd i weld os yw'n barod ar ôl tua 15 munud. Pan mae'n barod peidiwch a'i roi mewn jariau yn syth, gadewch iddo oeri am 15 - 20 munud yn y sosban, fe fydd hyn yn gwneud yn siwr fod y croen yn aros yn ei le yn y jariau a ddim yn codi i'r wyneb (gwnewch yn siwr fod y jariau'n gynnes cyn arllwys y marmalêd iddynt).

Fe ellir ychwanegu sinsir wedi ei grysialu, sbeis e.e. cardomom, neu chwisgi i'r marmalêd i gael blas gwahanol. Gwelais rysait yn un o'r papurau Sul yn ddiweddar am farmalêd gyda llai o siwgr ynddo, nid yw'r 'set' gystal â'r rysait traddodiadol ac mae'n farmaled tywyll a chryf ei flas. Dyma'r cynhwysion: dau bwys o orennau Seville, dwy oren felys, 2 lemwn, 1¼ peint o sudd afal, 18 owns yr un o siwgr Muscovado a siwgr mân, 2 lond llwy fwrdd o chwisgi, 1 llond llwy de o ymenyn, 6 owns hylif o Certo (ychwanegir y chwisgi, ymenyn a Certo wedi'r marmalêd gael ei ferwi i'r pwynt o setio).

Mae ffrwythau citrws eraill ar gael drwy'r flwyddyn ac mae pob un ohonynt yn llawn fitamin C. Daeth y lemwn yn wreiddiol o droed mynyddoedd yr Himalayas. Erbyn hyn amcangyfrif fod dros 650,000 o dyfwyr y ffrwyth yn Sbaen ac oddi yno cawn mwyafrif o'r lemwnau a werthir ym Mhrydain. Mae diod o lemwn, mêl a dwr poeth cystal ffisig ac unrhywbeth allwch ei brynu mewn fferyllfa, ar gyfer annwyd.

Mae croen ffrwyth citrws (y 'zest') yn llawn blas. Gellir ei sychu a'i ddefnyddio gyda llysiau blas i wneud boquet garni ar gyfer stiw cig eidion neu da pluog. Mae'r pîl weid ei gratio yn rhoi blas da i fisgedi, saws, cacannau, mayonnaise, stwffin, bwydydd safori, a tharten ffrwyth e.e. tarten afalau a lemwn neu leim, tarten riwbob ac oren. Mae cyllell 'canelle' yn torri stribedi hir a main o'r croen a gellir ei ddefnyddio mewn rywetiau neu i addurno bwyd.

Mae sawl aelod o'r teulu citrws ymysg ffrwythau estronig sydd i'w gweld yn y siopau. Hybrid o'r grawnffrwyth a'r tangerine yw'r ffrwyth Ugli o India'r Gorllewin. Mae'r Kumquats, orennau bach hirgrwn o Siapan a Brazil yn sur ond maent yn rhoi blas da i saws i'w weini gyda hwyaden; gellir eu bwyta'n gyfan gyda'r croen. Mae'r Pomelo yn debyg i'r grawnffrwyth ond yn fy marn i y grawnffrwyth pinc yw'r un mwyaf deniadol ei olwg. Mae cymysgedd o ffrwythau citrws mewn salad yn gwneud cwrs cyntaf diddorol i bryd o fwyd.

# BRENDA THOMAS

Aeth yr hen flwyddyn (1986) i ebargofiant ar ddydd Mercher. Mae tristwch atgofus ym mhob dydd olaf o'r flwyddyn bob amser ac yna ymegniwn yng ngobaith y Flwyddyn Newydd. Y tro yma daeth tristwch annisgwyl iawn i ran nifer ohonom ym marwolaeth Brenda Thomas yn 56 mlwydd oed.

Brodores o Langynwyd oedd Brenda a ymgartrefodd yma yng Nghaerdydd dros ddeng mlynedd ar hugain yn ol, i weithio i'r B.B.C.. Mae llawer mwy cymwys a gwybodus na mi am ei chyfraniad arbennig yn y maes hwnnw, ond roedd Brenda Thomas arall, i lawer ohonom oddi allan i'r byd hwnnw. Bu'n gysylltiedig ac ymroddgar gyda Ty'r Cymry a chofia lawer ohonoch amdani yn y cyswllt yma a llawenhau i ni gael ei chwmni yn y dathliad diweddar yng Ngwesty'r Parc. Bu hi a Margaret Price yn byw am flynyddoedd yn Cathedral Road ac yna yn Shirley Road a diarhebol, neilltuol, oedd eu drws agored, eu harlwyo bord, eu parodrwydd i wrando cwyn a chynorthwyo - eu cymdogion, cyd-Gymry Caerdydd ac aml i Gog fel fi dros y blynyddoedd. Yr un Brenda ymgartrefodd ym Moy Road, Y Rhath, a'r un caredigrwydd ymroddgar a'i symbylai yno. Faint ohonoch chi wyddai am Bethan a Sion, drws nesa' iddi? Hi ddylanwadodd i gael y plant yma i Ysgol Gymraeg Bro Eirwg. Maent yn Gymry rhugl eu hiaith erbyn hyn er nad yw eu rhieni na'u brawd a chwaer hyn yn siarad na deall yr iaith. Brenda oedd eu Mam Gymraeg. Oherwydd ei diddordeb mawr a'i hymweliadau a'r India bell, bu'n ffrind cywir i nifer o dras Indiaidd yma yng Nghaerdydd. Mae hiraeth amdani yng nghalon nifer ohonom ond diolchwn yr un pryd am y fraint o gael bod yn un o'i ffrindiau. Mae'n cydymdeimlad a'i brawd Eben a'i deulu a Hannah ei chwaer.

A.E.W

ENWOGION Y SINEMA

Llongyfarchion i Mr Philip Wyn Jones ar ei lyfr Enwogion y Sinema a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng nghyfres Enwogion y Byd. Mae pawb yn gwybod am ddiddordeb Philip yn y maes hwn a hefyd am ei wybodaeth drylwyr: felly, peidiwch â throi i hwn am wybodaeth ynghylch y sêr sydd ar y sgrîn yn unig.

Mae wedi bwrw cipolwg dros yr holl bobl sy'n ymhel â ffilm cyn iddi ymddangos, o'r un sy'n trin y gwisgoedd i'r un sy'n trin y camera. Clymir y wybodaeth hon wrth ffilmiau ac ambell seren ac mae'r llyfr o glawr i glawr yn gloddfa gyfoethog o ffeithiau diddorol.

Cyhoeddir y gwaith gan Wasg Cambria, Aberystwyth.

# Arddangosfeydd MAWRTH

AMGUEDDFA CENEDLAETHOL CYMRU

Y Prif Adeilad, Parc Cathays

Kyffin Williams R.A.
14 Mawrth - 2 Mai

Casglwyd 132 o'i beintiadau a'i luniadau o nifer o gasgliadau preifat ar gyfer yr arddangosfa adolygol bwysig hon. Fe'i trefnwyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol ac Oriel Mostyn ac fe'i noddwyd gan HTV Cymru a Banc Barclays. Cyhoeddir catalog darluniadol gyda rhagymadrodd gan John Ormond.

Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth

I'r Neb sydd â Llygaid: Cerfluniau Richard Deacon 1980 - 86
21 Mawrth - 12 Ebrill

Ganed Richard Deacon ym Mangor ym 1949. Defnyddia ddeunydd cyffredin megis dur galfanedig, linoleum a tharpolen.

Y Prif Adeilad, Parc Cathays

David Jones
tan 22 Mawrth

Ym mis Medi y llynedd prynodd yr Amgueddfa dri darlun olew prin o'i waith. Y mae'r tri yn cynrychioli 'Iesu'n cael ei wawdio', 'Y Croeshoeliad' a 'Sant Dominic'. Arddangosir y tri gwaith gyda rhai o beintiadau dyfrliw gorau'r artist yng nghasgliad yr Amgueddfa.

CHAPTER, Heol y Farchnad, Canton

Y Brif Oriel

Newidiad a Belfast
tan 29 Mawrth

Delwedd y cyfryngau o Ogledd Iwerddon yw'r trais ar amddifadrwydd cymdeithasol. Ymateb pum artist i'r helyntion sydd yn yr arddangosfa hon. Dewiswyd y gweithiau gan Gerald Deslandes Trefnwr Rhaglen Celfyddydau Gweledol, Chapter.

Yr Ail Lawr

Ffotograffiau gan Paul Graham
Y Tir Cythryblus
tan 29 Mawrth

Y FFOTO GALLERY, Heol Siarl

Y Triongl Du, Pobol Diaspora Affrica
tan 28 Mawrth

Arddangosfa o waith Armet Francis dros gyfnod o 14eg tra yn olrhain hanes y siwrnai a wnaed gan ei gyn-dadau fel caethweision o'r Caribi i Affrica.

Gweithdy Ffotograffiaeth y Pasg

'Gwirionedd Ffotograffaidd a Realaeth Delweddol'
17 - 20 Ebrill - gan ddefnyddio proses E6 (ffilm sleid) er mwyn cael canlyniadau cyflym. Cynhelir yn adran Allanol Prifysgol Cymru, Marine Terrace, Aberystwyth.

ARDDANGOSFA CYMDEITHAS CYFOES CYMRU (JIWBILI)

Rhoddwyd hysbysiad a nodyn bur am yr Arddangosfa hon yn rhifyn Chwefror o'r Dinesydd. Erbyn y daw rhifyn Mawrth allan fe fydd yr Arddangosfa ar fin cau, ac yna'i symud i Abertawe ac wedyn i'r Rhyl.

Gair bach yw hwn nid am y darluniau na'r Arddangosfa fel y cyfryw, ond am y catalog bach ond gwerthfawr a gyhoeddwyd. Gwerthfawr am ddau brif reswm. Yn gyntaf am ei fod yn cofnodi hanes y Gymdeithas o ganol y tri-degau hyd heddiw, ac yn cymwyso paragraff ar bob un o'r deuddeg aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol cyntaf yn ogystal â'u lluniau. Yn ail am fod manylion pob un gwaith a brynwyd o 1938 ymlaen wedi ei restru fesul blwyddyn, gydag enw'r dewisiwr am y flwyddyn honno. Hyfryd oedd sylwi mai y cyntaf un oedd 'Petra' gan David Jones, ac fod hwnnw wedi ei gynnwys yn yr Arddangosfa. Y dewisiwr y flwyddyn honno oedd J B Manson a ddaeth yn ddiweddarach yn Gyfarwyddwr y Tate.

Ymysg aelodau'r pwyllgor cyntaf yr oedd pobl fel Arglwydd Howard de Walden, Geoffrey Crawshay, D Brynmor Anthony (Cofrestrydd Prifysgol Cymru 1921 - 1945), Augustus John, Gwendoline a Margaret Davies a Syr Silas Wynne Cemlyn Jones. Y symbyliad pennaf oedd consarn ymysg rhai Cymry yn Llundain am y tlodi a'r esgeulustod yng nghymoedd y De. Cyfarfu grŵp bychan dan lywyddiaeth Clough Williams Ellis yn Llundain i drefnu arddangosfa o weithiau cyfoes i'w gosod yng Nghymru. Dewiswyd y gweithiau gan Augustus John, ac agorwyd yr arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol ym 1935, yna i'r Glynn Vivian cyn dod i'r Amgueddfa Genedlaethol. Yr oedd yn llwyddianus tu hwnt. Tyrfaoedd yn ymweld â bron tair mil o gatalogau yn cael eu gwerthu.

Yn y catalog ceir hefyd gyfraniad bachog gan D Fraser Jenkins; a fu hyd yn ddiweddar ar staff yr Amgueddfa Genedlaethol ac sydd y rwan yn Oriel Tate; o dan y pennawd Casgliad y Gymdeithas. Atgynhyrchwyd rhai o'r darluniau mewn lliw ac mewn du a gwyn ond gresyn na fyddai mwy ohonynt. Ar ddiwedd y catalog rhoddwyd rhestr defnyddiol o'r mannau lle dosbarthwyd y gweithiau. Peintiad Ceri Richards o'r 'Dyn Anymwybodol' sydd ar y clawr. Pris y catalog yw £4.00, a phoster o'r un darlun am £1.00. Gresyn nad oedd catalog Cymraeg neu ddwy-ieithog ar gael, ond deallaf bod rhesymau da am hyn y tro hwn. Polisi'r Amgueddfa yw cyhoeddi yn ddwy-ieithog ac edrychwn ymlaen at gatalog dwy-ieithog arddangosfa Kyffin Williams.

Seiriol Davies

Da gennym glywed bod Mr. Rhys Griffiths, gwr Rhian, yn gwella ar ôl damwain tra wrth ei waith.

'CAN MLYNEDD YMLAEN'
CYMDEITHAS CELF DE CYMRU

Yn rhifyn Chwefror o'r Dinesydd, tynnwyd sylw at y ffaith fod y Gymdeithas yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni. Pan feddyliwn mai dim ond yn 1912 yr etifeddodd Amgueddfa Genedlaethol gasgliad peintiadau yr hen Amgueddfa Caerdydd, ac fod yr holl gyfoeth sydd yno rwan wedi ei brynu a'i gasglu oddi ar hynny, mae hefyd yn dwyn rhywun i feddwl pa mor dlawd oedd y cyfleusterau i garwyr celf weld a dysgu am weithiau o safon cyn hynny.

Yn ôl yn y 1870au yr oedd Paris yn fwy o fwrlwm o beintio nag a welodd cyn nac ar ôl hynny. Yr Argraffiadwyr yn eu hanterth, a'u dylanwadau yn croesi'r dwr i Lundain. Er enghraifft ym 1887 yr oedd Monet yn arddangos yn Llundain ac yn bresennol yn yr agoriad. Y flwyddyn ganlynol yr oedd Degas yn cael arddangosfa yno hefyd.

Tybed a oedd y dylanwadau hyn yn dod i Gymru? Sefydlwyd Academi Frenhinol Cymru yn y Gogledd ym 1882, ac ym 1853 a 1885 trefnwyd arddangosfeydd yng Nghaerdydd i ennyn diddordeb yn y De, ond methiant ariannol fu'r ddwy. Dyma ddiwedd ar ymdrechion yr Academi ac yn y Gogledd y mae hi byth. Ond pwy all fesur effaith y dylanwadau hyn, oherwydd yma yng Nghaerdydd yn 1887 y cyfarfu nifer o bobl brwd yn nhai eu gilydd a phenderfynu ffurfio Cymdeithas Gelf. Felly ym 1888 daeth Cymdeithas Gelf De Cymru i'w llawn fodolaeth. Trefnwyd yr arddangosfa cyntaf y flwyddyn honno, ac fe dalodd 6,000 o bobl am ei gweld.

Yn Oriel, Heol Siarl, heddiw gwelir Arddangosfa'r Gymdeithas i ddathlu'r canmlwyddiant. Agorwyd yr arddangosfa gan Donald Moore. Rhoddodd fraslun o hanes y Gymdeithas a oedd eisoes wedi ei gadw'n ofalus dros y blynyddoedd mewn adroddiadau papurau newydd, dogfenni a chofnodion pwyllgorau. Nid Cymdeithas i amaturiaid talentog yn unig yw'r Gymdeithas, er mai dyna yw ei phrif amcan. Perthyn rhai arlunwyr proffesiynol iddi o dro i dro, a chafwyd cefnogaeth gan lawer ohonynt. Cyfeiriodd Donald Moore yn ei nodiadau yn y catalog at bobl fel William Goscombe John, Syr Frederic Leighton, yr Athro Hubert Herkomer (yr arlunydd o Bafaria a gynlluniodd regalia yr Orsedd Gymreig), Margaret Lindsey Williams, Ifor Williams ac eraill.

Anrhydeddwyd y Gymdeithas drwy dderbyn gwahoddiad Cyngor y Celfyddydau, Cymru, i osod yr arddangosfa bresennol yn yr Oriel. Yn arddangos y mae'r gweithiau sy'n ddewisiedig allan o nifer fawr a gynigiwyd, gweithiau o safon uchel iawn, yn amrywiol, lliwgar, diddorol a dealladwy iawn. Bydd ymlaen tan Mawrth 28. Galwch i mewn.

Seiriol Davies

# SACH LIAIN A LLUDW




Yn anffodus yn y rhifyn diwethaf, cyhoeddwyd y stori isod gyda'r darlun anghywir. Ymddiheurwn i bawb am y camgymeriad a ddigwyddodd am resymau y tu hwnt i reolaeth y pwyllgor golygyddol. Dyma'r llun cywir y tro hwn, ac mae'n siwr y cytunwch ei fod yn werth ei gyhoeddi.

Rhai o blant Adran Truro Salem a fu lawr yn y Pwll Mawr, Blaenafon. Dyma'n henwau o'r dde i'r chwith: Gwenno Saunders, Dafydd Meredith, Mererid Michael, Garmon ap Michael, Gwenfair Michael, Justin Williams, Dafydd yr Heliwr, Lynn Mererid Saunders, Dean Hughes, Rhiannon Michael, Ethni Jones.

Fe fentron nhw draw i Flaenafon yng Ngwent ar ddydd Sadwrn cyn y Nadolig wedi gweld hysbyseb yn dweud bod Santa'n mynd i fynd lawr yno'n arbennig i'w croesawu. Chawson nhw mo'u siomi. Gwlad Santa oedd hi mewn gwirionedd - eira ar y bryniau - digon o hwyl wrth wisgo'n addas a mynd lawr y shafft i weld y gŵr mawr a chael anrheg oddi wrtho a chael llun, cawl twym, tatws trwy'r pîl, mins peis a thân hyfryd i'w croesawu ar y ffâs a thylwyth teg Santa yno yn gweini arnom.

Gareth Gregory, sy'n hysbys inni i gyd fel cyn-drefnydd yr Urdd a'r Bwrdd Croeso sy'n awr yn un o drefnyddion y Pwll gafodd y syniad yn wreiddiol. Os drefnan nhw rywbeth tebyg y flwyddyn nesa' mae'n syniad gwych ar gyfer gwibdaith y Nadolig.

Cawsom gwmni tâp Hwyl yr Ŵyl y Mudiad Meithrin ar y ffordd a digon o ganu a chwerthin yr holl ffordd yno. Cost ymweliad a Santa ac anrheg a mynd lawr y shafft oedd £1. Pheidiodd y chwerthin a'r canu ddim yr holl ffordd yn ôl. Taith nodedig - gwerth ei wneud eto!

**Ysgrifenyddes/ Ysgrifennydd**

**i Adran y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus**

Yr ydym yn chwilio am ysgrifenyddes/ysgrifennydd brwdfrydig i weithio yn yr Adran uchod yng Nghaerdydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol i Ddirprwy Bennaeth y Wasg ac yn ymwneud â dyletswyddau gan gynnwys paratoi gwybodaeth bwrpasol am weithgarwch rhaglenni y cwmni i Wasg Cymru a Phrydain. Mae'r gwaith yn waith diddorol ac amrywiol, a gofynna am ddycnwch ac ysbrydoliaeth mewn swyddfa brysur. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn meddu ar lawfer a theipio o'r radd flaenaf, a'r gallu i weithio ar ei liwt hi/ef ei hun.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau lleol, £7,386 y flwyddyn.

Dylair ymgeiswyr cymwys ysgrifennu am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig ynghyd â chyfeirnod DIN/594 at y Rheolwr Personel, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ.

*Yr ydym yn gyflogwyr cyfle cyfartal, ac yn croesawu pob cais heb ystyried na rhyw, cefndir ethnig, anabledd na statws priodasol*

HTV

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau ar rifyn Ebrill at : Y Dinesydd, 2, Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd, erbyn Mawrth 13eg.



# BWTH RUTH



Wel helo a pa hwyl sydd. Sut mae "chips tandoori", "tatws barbeciw" neu "sglods tatws ac afal" yn apelio. Tydi'r dysen neu'r daten ddim wedi cael ei chodi i'r lefel yna yn fy nghegin i eto, rhyw lysieuyn sy'n angenrheidiol ar ffurf rhôst a berw ar blât cinio Sul; yn brydyn cyflwn i swper hefo llenwad syml fel bacwn, caws neu ffa pob ar ei wedd fel tysen trwy'r croen. Cig a rhwymau tato, tatws pum munud, tatws popty a fy ffefryn mawr i, tatws ag ŵy mewn saws caws - mi gewch y riset rhywbryd! Dyma sut bydda i yn meddwl am Desiree, Pentland Javelin, Mavis Piper a'r King Edward.

Yr Incas yn Periw pia tatws a morwyr y byd sy'n gyfrifol iddo ddod i Ewrop. Fe fu Louis XVI o Ffrianc yn gwisgo blodyn tatws yn ei dwll botwm ac mi fyddai plant y trefi a'r dinasoedd yn oes Fictoria yn prynu tatws trwy'i crwyn ar gornel strydoedd gan y dyn tatws (a'r gwyr bonheddig yn eu prynu nhw i'r ledis yn y Strand i gadw eu dwylo'n gynnes!!)

Mi ges i'r holl wybodaeth yma a risetiau gwych rhwng cloriau llyfr arbennig o hardd a rhesymol"The 'Trust' in British Potatoes"; llyfr sy'n cael ei gynhyrchu gan y Bwrdd Marchnata Tatws a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y cyd. A'r pris - £3. Mae'n werth pob ceiniog gan fod ynddo luniau hardd, risetiau call defnyddiol a dyma sy'n fy nifyru i - lluniau o offer 'slawer dydd yn eu cynefin. Mae 'ma gyfraniad o Blas Erddig ger Wrecsam a llun stafell fwyta Plas Newydd, Sir Fon, a darlun enfawr Rex Whistler yn gefndir i'r cyfan. Mae'r llyfr ar gael mewn unrhyw siop Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu oddi wrth y Bwrdd Marchnata Tatws.

O.N. Mae yna le godidog i gerdded yn yr awyr iach gyferbyn â Plas Newydd erbyn hyn gan fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gwneud llwybrau a gosod meinciau er mwyn i ni gael mwynhau troedio glannau Menai - 'does unman gwell i weld yr haul yn machlud! Hwyl.

CWMNI DRAMA'R FUWCH GOCH

YN CYFLWYNO

TAIR DRAMA FER

EBRILL 7 a 8

CLWB IFOR BACH

# GAIR O BROFIAD

Mae colli plentyn cyn ei eni yn beth cyffredin medd y meddygon. Caiff un allan o bob tri ei erthylu'n naturiol, weithiau heb i'r fam hyd yn oed sylweddoli ei bod yn feichiog. Yr hyn sy'n drist yw bod ymwneud a thrin digwyddiad mor gyffredin wedi cael effaith anffodus ar rai meddygon a nyrsus. Rwy'n dweud hyn o'm profiad fy hun, gan i mi golli plentyn cyn y Nadolig.

Ond cyn y cwyno, y canmol. Roedd y driniaeth gefais gan fy meddygon teulu yn gaboledig. A pham lai eu henwi yn ein papur bro? Mae Dr.Entwistle, Dr. Hart a Dr. McWilliams yn gweithio yn y Feddygfa ger y groesffordd ar Heol Caerffili. Dr. McWilliams ddywedodd wrthyf y bore Iau hwnnw bod y babi wedi marw, a threfnu i mi fyndi Ysbyty'r Brifysgol yn y prynhawn. Fe'm sicrhaodd y buasai popeth drosodd erbyn yr hwyr.

Nid felly y bu. Ar ol cyrraedd y ward geinacolegol gofynnodd y nyrs i mi pa dystiolaeth oedd gennyf fod y babi'n farw, gan fwy neu lai ddi-ystyru barn y meddygon teulu. Roedd llygedyn o obaith bod popeth yn iawn. Yna, daeth meddyg i'm gweld, yntau hefyd yn barchus a phendant ei agwedd. Ar ol archwiliad mewnol cytunodd a'r meddygon teulu a'r prawf beichiogrwydd negyddol wnaed y diwrnod cynt. Roedd y plentyn yn farw. Cyn hir daeth Cofrestrydd, meddyg mwy profiadol heibio. Cefais archwiliad mewnol arall nes fy mod yn gwingo. Gallai'r babi fod yn fyw ym marn y Cofrestrydd. Dylwn gadw i'm gwely a dylid gwneud prawf beichiogrwydd arall drannoeth. Y bore canlynol, tua wyth o'r gloch cefais wneud prawf beichiogrwydd arall. Roedd y canlyniad i fod yn ol ar y ward erbyn hanner dydd. Rhaid oedd aros. Yn y cyfamser daeth y Prif Gofrestrydd heibio. Sut oeddwn i'n teimlo? Oeddwn i'n teimlo'n feichiog? Allwn i ddim rhoi ateb gonest iddo. Yna, gan fy niystyru'n llwyr sgwrsiodd efo'r myfyrwyr oedd wrth ei gwt, gan drafod dilysrwydd y prawf beichiogrwydd. Wrth adael, trodd a dywedodd nad oedd diben i mi aros yn y gwely. Os oeddwn yn mynd i golli'r babi yna doedd gorwedd mewn gwely yndda i ddim. Codais.

Hanner dydd - dim canlyniad. Am hanner awr wedi dau clywais nyrs yn crybwyll fy enw ar y ffon. Gofynais iddi am gael gweld meddyg. Gofynnodd hithau yn ddigon dihid am fy enw. Yna dywedodd wrthyf nad hi oedd fy nyrs i - roedd honno yn brysur. Yna gan feddwl efallai y gallwn fod yn wael, gofynnodd yn swta pam yr oeddwn eisiau gweld meddyg beth bynnag. I drafod canlyniad y prawf beichiogrwydd meddwn. Cerddodd i lawr y coridor gan ddweud dros ei hysgwydd ei fod yn bositif, yn isel ond yn bositif. Es yn ol i'r gwely a thorri 'nghalon. Daeth y nyrs a thynnwyd y llenni. Roedd gennyf fil a mwy o gwestiynnau i'w gofyn am fy nghyflwr a'r diffyg triniaeth. Ni chefais ateb call parchus i'r un ond yn hytrach fy nhrin fel niwsans hanner pan oedd yn achosi trafferth. Mynnais drosodd a throsodd fy mod yn cael gweld y meddyg. Am hanner awr wedi pedwar daeth y Prif Gofrestrydd draw. Fe wnaeth ymchwiliad mewnol a dweud 'tae o wedi gwneud hynny'r bore hwnnw gallai fod wedi dweud bod y plentyn wedi marw yn y groth ers wythnosau.

Am hanner awr wedi unarddeg y noson honno cefais lawdriniaeth i lanhau'r groth. Am wyth bore drannoeth roeddwn yn crefu ar Roy ddod i'm nol yn syth. Am naw roeddwn adref. Doedd y strach ddim ar ben cofiwch. Roedd rhywun wedi anghofio rhoi pigiad i mi - pigiad angenrheidiol i ferched fel fi sydd â gwaed rhesus negyddol, ac roedd yn rhaid i mi fynd yn ol i'r ward bore Sul i gael honno.

Rwyf wedi colli llawer o ffydd mewn meddygon ysbytai. Mecanics dynion (a merched) ydyn nhw meddai un ffrind ac rwy'n tueddu i gytuno. Nid wyf am gwyno'n swyddogol - does gen i ddim ffydd chwaith yn y sustem honno, ond erbyn i'r erthygl yma gael ei chyhoeddi, fe fyddaf, gobeithio, wedi cael sgwrs efo'r Arbenigwr oedd yn gyfrifol am y driniaeth. Gobeithio y bydd gair yng nghlust yn fwy effeithiol na gair ar bapur.

Rwy'n gwybod bod y Gwasanaeth Iechyd dan straen. Rwy'n gwybod bod 'na brinder adnoddau ac arian. Ond colli plentyn wnes i. Nid colli embrio.Nid colli foetus. Colli plentyn. Doedd sylweddoli hynny'n costio dim i neb.

Bethan Jones Parry.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


## DEWIS YMGEISYDD


Gyda'r holl son am Etholiad Cyffredinol sydd wedi bod yn ddiweddar, mae'r pleidiau gwleidyddol yng Nghaerdydd wedi bod yn ddiwyd yn dewis ymgeiswyr ar gyfer y dydd o brysur bwyso a ddaw.

Y ddiweddaraf i gael ei dewis fel ymgeisydd yw Mrs. Eluned Bush. Dewiswyd hi gan Blaid Cymru i sefyll yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Mae Mrs. Bush yn 42 mlwydd oed, ac yn hannu o Ferndale yn y Rhondda. Fe raddiodd gydag anrhydedd mewn Economeg ac Ystadegaeth o Brifysgol Exeter, cyn mynd ymlaen i wneud diploma pellach ym Mhrifysgol Reading. Mae hi wedi derbyn gradd uwch gan Brifysgol Cymru am astudiaeth o agweddau a nodweddion y rhieni a ddewisodd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant yng Ngwent. Mae hi'n gweithio fel swyddog gyrfau gyda Chyngor Sir Gwent, b'le mae hi'n cynorthwyo myfyrwyr mewn addysg uwch ac oedolion.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

**TAFLEN**


*LLYFRAU*
*RECORDIAU*
*CASETIAU*
*CARDIAU*




Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

**IESU**
**Ddoe a Heddiw**
**mewn llyfr a fideo**

Cafodd gweinidogaeth David Watson ddylanwad bendithiol ar lu o Gymry. Mae'r weinidogaeth honno'n parhau yn 'Iesu Ddoe a Heddiw'.






Yn dilyn y gyfres Iesu Ddoe a Heddiw a ddangoswyd ar S4C yn ddiweddar, y mae neges David Watson yn cael ei gyflwyno yn fyw i ni heddiw gan Meirion Lloyd Davies, trwy gyfrwng drama, ffilm a chyfweliad.

**AR GAEL O'CH SIOP FIDEO LLEOL HEDDIW**

**Llyfr Iesu Ddoe a Heddiw**
Gallwch brynu y llyfr 200 tudalen llawn lliw yn eich siop lyfrau lleol neu drwy'r Post am £4.95. Dim tâl post. Y llyfrau ar gael tra pery'r cyflenwad.

**PRYNWCH GOPI AM £29.95**

Mae'r fideo Cymraeg 4 awr yma yn fargen am £29.95 a bydd hefyd yn cynnwys copi o'r llyfr sy'n mynd gyda'r gyfres, am ddim. Dim tâl post

Llyfr gwerth £4.95 am ddim

Bydd y tapiau a'r llyfrau yn eich cyrraedd o fewn 4 wythnos.

| | Nifer | £ |
|---|---|---|
| Fideo Iesu Ddoe a Heddiw am £29.95 yr un | | |
| Llyfr Iesu Ddoe a Heddiw | | |
| Nodwch: VHS ☐ Beta ☐ | P a P | Dim |

Enw ____________
Cyfeiriad ____________
____________
____________
____________
Côd Post ____________

CYFANSWM £ ______

Gwnewch y sieciau'n daladwy i: Trinity Films Products Ltd.
Anfonwch i: Treftadaeth Gristnogol, Bocs Post 13, Aberystwyth, Dyfed.

# LLYFRAU

Trigain, Gareth Alban Davies, Cyhoeddiadau Barddas, 84tt; £4.00.

Cerddi R. J. Rowlands, Cyhoeddiadau Barddas, 74tt; £3.50.

Dwy gyfrol o farddoniaeth wahanol iawn i'w gilydd sydd gennyf i'w hadolygu y mis hwn, ac mae'r rheiny'n dyst o amrywiaeth cynnyrch Cyhoeddiadau Barddas. Mae'r ddau fardd yn cynrychioli dau deip sydd wedi bod yn amlwg iawn ymysg beirdd Cymru yn y ganrif hon, sef y beirdd prifysgol a'r beirdd bro. Mae Gareth Alban Davies newydd ymddeol o'r Gadair Sbaeneg ym mhrifysgol Leeds, ffaith sy'n ei osod ar wahân i'r mwyafrif o'n beirdd academaidd, gan mai gyrfa yn un o adrannau Cymraeg Prifysgol Cymru yw'r patrwm arferol. Gwelir dylanwad ei ddiddordeb yn niwylliant Sbaen yn glir iawn yng ngherddi'r gyfrol hon, ochr yn ochr â cherddi am Gymru, ac at ei gilydd mae naws ryngwladol ar ei waith sy'n amheuthun mewn barddoniaeth Gymraeg. Mae ei ddysg eclectig yn gryfder yn ei farddoniaeth, yn enwedig lle mae ei ddychymyg yn cydweithio â'i wybodaeth i gydio'r gorffennol pell â'r presennol wrth iddo fyfyrio ar wrthrychau hanesyddol. Mae'n fardd deallus a dyfeisgar, ac mae ei waith yn haeddu ei ddarllen yn ofalus a phwyllog. Caiff y darllenydd ei syfrdanu drosodd a thro gan ymadroddion a delweddau annisgwyl ac eto cwbl eglur. Dyma bennill cyntaf ei gerdd 'Nanhyfer' yn enghraifft o'i vers libre cyhyrog:

O'r môr
cerddasom trwy goedydd a
        chenhedloedd,
ar hyd llwybrau'n boblog
gan Northmyn a Methodist.
Ymsythai'r afon fel saeth,
gan yrru brath yr heli
i glwyf y tir;
ac yna dacw hi eilwaith,
yn ymdroelli yn ein hymyl
fel neidr ar darian.

Bardd ei gymuned leol ym Mhenllyn yw R. J. Rowlands, fel ei dad o'i flaen, ac mae ei waith yn wrthwyneb llwyr i farddoniaeth Gareth Alban Davies, yn herfeiddiol o blwyfol, yn draddodiadol o ran crefft a gweledigaeth, ac yn rhoi boddhad trwy fynegi agweddau cyfarwydd mewn dulliau graenus a bywiog. Mae ganddo yntau ymwybyddiaeth gref â hanes hefyd, ond o safbwynt cysylltiadau personol â'r gorffennol yn ei deulu a'i gymdogaeth, fel y gwelir yn arbennig yn y gerdd hir 'Atgofion', sy'n darlunio dwy genhedlaeth o'i deulu'n fyw iawn. Mae'n naturiol i fardd gwlad yn yr oes hon edrych yn ôl yn hiraethus i'r hen amser pan oedd ei gymuned yn fwy llewyrchus, ond mae R. J. Rowlands yn osgoi'r perygl o gynhyrchu Sain Ffagan o gyfrol oherwydd ei bwyslais ar gyfrifoldeb y to presennol i sicrhau parhad bywyd y fro. Fel y dywed yng nghwpled clo ei soned am yr Amgueddfa Werin, 'Mae ddoe yn ddiogel ddigon, da y gwn, / Ond yn ein dwylo ni mae'r heddiw hwn.' Mae'r agwedd gadarnhaol honno'n esgor ar ganu grymus iawn ar brydiau. Dyma enghraifft ar ffurf yr englyn, 'Y Dewis':

Ai 'fory digyfeiriad a hawliwn,
   Neu olau'r deffroad,
  Pŵer a hawl ein parhad
  Neu ing ein darostyngiad?

Mae safon y farddoniaeth yn y ddwy gyfrol yn gyson uchel, a hyderaf fod chwaeth Cymry'r ddinas yn ddigon eang iddynt gael blas ar waith y ddau fardd cyferbyniol hyn. Mae diwyg y cyfrolau'n deilwng o'u cynnwys, a'r prisiau'n rhesymol dros ben, a gobeithio y bydd eu gwerthiant yn ddigon helaeth i sicrhau cyflenwad cyson o lyfrau barddoniaeth o'r un safon oddi wrth Gyhoeddiadau Barddas.

D. R. Johnston

---

CRIST YN Y GWLAG gan GERALD MORGAN
GWASG CARREG GWALCH Pris: £1.80

*Fe ddaeth Mr Reagan o flaen Gorsedd Duw, a gofynnodd i'r Hollalluog:*
*"Arglwydd, pryd fydd fy mhobl yn hapus?"*
*"Ymhen can mlynedd", oedd yr ateb. A llefodd Reagan, am na fyddai'n gweld hapusrwydd ei bobl yn ei oes ef.*
*Daeth Mrs Thatcher o flaen yr Orsedd; yr un oedd ei chais, yr un oedd yr ateb ac fe lefodd hithau. Yna fe ddaeth Mr Gorbatshef o flaen Gorsedd Duw, a gofynnodd:*
*"Arglwydd, pryd fydd fy mhobl yn hapus?"*
*A dechreuodd Duw lefain.*

Ni ddywed y ddameg hon a argraffir ar glawr cefn y gyfrol ddim am Mr Reagan, Mrs Thatcher, Mr Gorbatshef na'r gwladwriaethau a lywodraethir ganddynt, nac am Dduw; ond dywed ddeubeth am y sawl a'i luniodd a'r rhai sy'n ei hailadrodd:
1.Daliant fod yr Unol Daleithiau a Phrydain Fawr yn wladwriaethau y gellir eu diwygio, eithr mai Ymerodraeth y Fall yw'r Undeb Sofietaidd.
2.Credant fod yr Hollalluog yn cydsynio â'u daliadau gwleidyddol hwy eu hunain.

Y mae'n bosibl y gwadai Gerald Morgan fod hyn yn grynodeb teg o'i safbwynt, ond dadlau fel arall a wna'r hysteria gwrth-Sofietaidd a'r osle£ hunan-gyfiawn sy'n hydreiddio ei lyfr.

Cloddiodd ei ddefnyddiau crai o'r mynydd o lên a gyhoeddir yn flynyddol gan Keston College, yng Nghaint, "Canolfan er Astudio Crefydd a Chomiwnyddiaeth", a sefydlwyd gan y Parch. Michael Bourduex, un o feirniaid tennis Wimbledon, a gwr a ddeil, yn ol yr awdur, fod "Duw wedi ymyrryd yn ei fywyd..." trwy drefnu cyfleusterau iddo ddysgu Rwsieg pan oedd yn yr RAF.

Dyma a ddywedodd clerigwr Albanaidd o'r enw Canon Kenyon Wright am Keston College mewn cylchgrawn crefyddol yn ddiweddar:
*"Keston is prejudiced. Again the word is used in its strict sense - it operates from a prejudgment on Soviet society. Here we come to the crux of the matter - if one has decided, on other grounds, that the Soviet Union is some kind of 'evil empire' then it will never be difficult to find evidence for that".*

Mae ymateb un o geffylau blaen Keston, Syr John Lawrence (awdur THE HAMMER AND THE CROSS: cyh.BBC) yn nodweddiadol o agwedd y Coleg at ei feirniaid - eu cyhuddo o dwpdra neu naifrwydd ac o gael eu defnyddio gan yr awdurdodau Sofietaidd, a bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd Cristnogion yn y gwledydd Sosialaidd nad ydynt yn elynion i'w llywodraethau:
*"I have it on unimpeachable authority that Metropolitan Filaret of Kiev had made public statements which are contrary to his beliefs...Personally I do not conclude that the Metropolitan is a Church Quisling, but this is a complicated question".*


Mae'r berthynas rhwng y grefydd Gristnogol a Chomiwnyddiaeth, a rhwng Cristnogion a Chomiwnyddion, yn faes astudiaeth bwysig a chyffrous. Yma yng Nghymru cafodd Comiwnyddion blaenllaw fel y diweddar Annie Powell a Dai Francis - heb sôn am Niclas y Glais - fagwraeth drwyadl Anghydffurfiol. Yn Neheudir America ceir Marcswyr a Chatholigion yn byw ac yn marw ochr yn ochr dros hawliau'r gorthrymedig, ac yn erbyn gormes yr Unol Daleithiau a'i chynffonwyr brodorol.

Byddai trafodaeth gall yng nghyd-destun yr Undeb Sofietaidd yn mynnu ystyriaeth o geidwadaeth ronc, adweithiol, yr Eglwys Uniongred cyn y Chwyldro, a'i chysylltiad ag unbenaeth y Tsar a'r tirfeddiannwyr; o'r defnydd a wnaiff llywodraethau a gwasanaethau cudd y Gorllewin o Gristnogion unigol ac o eglwysi "anghydffurfiol"; o ffynonellau ariannol sefydliadau fel Keston; o lwyddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gwledydd Sosialaidd, eu cefnogaeth i fudiadau rhyddid y Trydydd Byd, a'u polisiau blaengar ar Heddwch.

Mae i'r Undeb Sofietaidd, fel i bob cymdeithas arall, ei ffaeleddau. Caiff hefyd fai ar gam, yn aml iawn, gan elynion cibddall. Nid trwy gyfrwng trafodaeth ag aelod o'r garfan honno mae didoli'r gau oddi wrth y gwir.

GARETH MILES

---



## CYLCH LLYFRYDDOL CAERDYDD

Mae Cylch Llyfryddol Caerdydd yn mynd o nerth i nerth. Ar ddydd Gwener olaf Ionawr, roeddem i gyd yng ngoruwch ystafell llyfrgell y ddinas. Yno, roedd Mr Brynmor Jones yn ein hannerch ar drysorau'r llyfrgall honno.


Yn ei ffordd ddihafal ei hun, fe'n hatgoffodd o sawl ffaith ddiddorol. Nid pawb sy'n gwybod efallai bod un o drysorau llenyddol yr iaith Gymraeg yn y ddinas sef Canu Aneirin. Yng Nghaerdydd hefyd y sefydlwyd llyfrgell Gymraeg gyntaf Cymru. Oni bai am un digwyddiad bach, mae'n ddigon posibl mai yma y byddai'r Llyfrgell Genedlaethol wedi cael ei chodi. Ond stori arall yw honno.

Aeth y siaradwr â ni'n gelfydd drwy'r trysorau ac yna buwyd yn edrych ar nifer ohonyn nhw gan wybod y byddant yn mynd cyn hir i'r llyfrgell newydd gyfagos.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Athro Ceri Lewis, cadeiriwyd gan Mr Alun Mathias.

Bydd y cyfarfod nesaf wedi bod cyn i'r Dinesydd nesaf ymddangos ond rhowch 27 Mawrth yn eich dyddiadur. Dyna'r noson y bydd yr aelodau'n dod a'u trysorau llenyddol i'w dangos. Bydd y noson honno yng ngofal Mr Robin Gwyndaf.

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn  RHIF 69



Ar Draws
1. Gorchestion yn cau ogylch un A.S. Seisnig (6)
4. Y gloch "C" yn cael aml i 'ring' (6)
9. Ble cafodd ŵr y tŷ ei westeion i'w swper mawr (Efengyl Luc) (1,7,1'1,5)
10. Argraffdai Cymru (6)
11. "Fynni dithau, f'enaid fod -- - ----- heb roi clod?" (Neander) (2,1,5)
12. Mynd a'i ben iddo (8)
14. Ein siâr ni o amser? (6)
15. Coleg yn dilyn cywair i astudiaeth o'r amgylchedd (6)
18. Llysieuyn ar gyfer Mis Mawrth (8)
21. Traethiad (ar gyfer Gŵyl Dewi efallai) ... (8)
22. .... a llawer ohonynt (6)
24. Mae'n cyrraedd hyd eithaf ei bosibiliadau, --- neu ei oddefgarwch (3,1,3,2,6)
25. Fe all Tarsus fod yn le cymleth iawn (6)
26. Grisiau i fesur tymheredd gwŷr coleg?(6)

I Lawr
1. Dygwyd ciw pi dy wallt i drefn (7)
2. "....... nid cerrig
Ond cariad yw'r -----" (R.W.P) (5)
3. Glo a sydd i'w ridyllu'n hyfforddus (7)
5. Addo gwneud (7)
6. Theatrau lle bu Dai yn actio? (9)
7. Mynd ati i ddal tyrchod daear. (7)
8. O'r fan acw (6)
13. Fe ddaru ti esbonio (9)
16. Prif orchwyl Gŵyl Dewi? (7)
17 Cyflawnu proffwydoliaeth wrth boeni am gur Iddew (7)
18. "Fel y ------ i'r oesoedd a ddel y glendid a fu" (6)
19. "Cyfraith y Mediaid a'r Persiaid, yr hon ni -------" (Daniel VI) (7)
20. Eu cael fel ych yn y canol i ddynwared (7)
23. Uchel dras (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 68

Ar Draws: 1. CYFEILLGARWCH; 8. TANNU'R GWELY; 11. OWEN; 12. EMYN; 13. SYRTHIED; 15. CAETHWAS; 16. SYCHAU; 17. MAWN; 18. ALAW; 19. SANCT; 21. REALITI; 22. REALAETH; 23. MAER; 26. TODDI; 27. NODWEDDIADOL; 28. ANONESTRWYDD.

I Lawr: 2. YNGAN; 3. EINIOES; 4. LLWRW; 5. AFWYNAU; 6. WELE; 7. MOESYMGRYMU; 8. TEYRNWIALEN; 9. YMCHWILIADOL; 10. ANESMWYTHAIS; 14. DYLAI; 15. CANCR; 19. STALWYN; 20. TESFAWR; 24. ROWN; 25. ADDAS; 26. TORY.


BYDD

TALWRN Y BEIRDD

YN CAEL EI RECORDIO

YNG NGHLWB IFOR BACH

AR 17eg O FAWRTH AM 7.30

CAERDYDD
V.
BRO MORGANNWG

DEWCH I GEFNOGI EICH TIM


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: wel dyma gyfnod lwcus! Bydd y planed haelionus Iau yn symud i'ch arwydd y mis hwn gan ddwyn danteithion di-ri yn ei sgîl. Mwynhewch!

TAURUS: Bydd hwn yn fis creadigol iawn i chi - ond mae'n bosib y bydd anghydfod yn y gwaith. Ceisiwch beidio â gwrthsefyll unrhyw newidiadau sy'n rhwym i ddod.

GEMINI: Fe ddaw rhwystredigaethau di-ri i'ch poeni ddechrau Mawrth - ond mi fydd pethau'n siwr o wella ar ôl y 12fed. Cyfnod da i ganolbwyntio ar y gwaith.

CANCER: Rydych yn llawn uchelgais ar hyn o bryd ac yn awyddus i wthio am ddyrchafiad yn y gwaith. Cymrwch gysur fod y planed lwcus Iau o'ch ochr. Mi ddylech gael blwyddyn lwyddiannus iawn.

LEO: Yn anffodus ni fydd hwn yn fis rhy dda - byddwch yn teimlo'n ansicr ynnoch eich hun, bydd arain yn diflannu fel dwr, ond erbyn diwedd y mis byddwch yn teimlo'n llawer mwy hyderus.

VIRGO: Dyma ddechrau pennod newydd i chi - cyfle i gael gwared ar hen arferion fu'n eich poeni. Ac ar ôl ambell i gweryl cyn y 12fed mi ddylai hwn fod yn fis rhamantus iawn!

LIBRA: Mi fyddwch yn siwr o gael hwyl y mis hwn - ymlaciwch a mwynhewch! Mae e'n fis rhamantus hefyd. Gofalwch peidio a gorwario - fe all fod rhywrai am gymryd mantais o'ch caredigrwydd.

SCORPIO: Edrychwch ar eich bywyd o ddifri i asesu a ydych yn teithio i'r cyfeiriad iawn, ac os nad ydych newidiwch eich cwrs cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Byddwch yn garedig i'ch cymar.

SAGITTARIUS: 'Dyw pethe ddim wedi mynd yn rhy hawdd yn ddiweddar, ond o'r diwedd fe ddylai pethau wella o hyn ymlaen. Dyma'r amser i wneud yr holl newidiadau y buoch yn breuddwydio amdanynt cyhyd.

CAPRICORN: Mis rhamantus, er bod rhai problemau yn y cartref. Peidiwch â gadael iselder eich tynnu i lawr ar yr 11eg. Bydd rhywfaint o dwyll o'ch cwmpas ddiwedd y mis - cymrwch ofal!

AQUARIUS: Mi fyddwch eisiau mwynhau'r mis hwn yn hytrach na gweithio - a pam lai! Byddwch yn teimlo'n gariadus iawn tuag at eich cymar. Peidiwch a gadael i neb arall geisio rheoli'ch bywyd.

PISCES: Mi ddylech wneud yn dda yn arianol eleni. Mae hwn yn fis ardderchog i drin a thrafod problemau, ysgrifennu llythyron, cyfathrebu ymhob ffordd. Ceisiwch osgoi cweryla gyda rhywun mewn awdurdod.

# Drama

PEER GYNT gan HENRIK IBSEN

Cwmni Theatrig
Gofod Theatr St. Stephen
19fed ac 20fed Chwefror

Mae yna ran yn y ddrama *Peer Gynt* gan Henrik Ibsen b'le mae'r prif gymeriad yn pilio 'nionyn ar y llwyfan. Nid er mwyn gwneud cawl, ond er mwyn dod o hyd i'r canol. Wrth reswm, y cwbl y daw o hyd iddo yw mwy a mwy o 'nionyn, ac yna dim. Fe allasech feddwl mai rhyw greadur go ddiniwed fyddai'n meddwl y gallai ddod o hyd i'r fath beth â chanol 'nionyn, ond dyna ni. Un o bosau'r epig faith hon yw na ellir dweud p'un ai digri' ai dfri' yw golygfa o'r fath i fod, ai alegori ddifrifol o stad enaid dyn, ai chwerthin am ben seithugrwydd athronyddu.

Un o ddramau cynnar Henrik Ibsen yw *Peer Gynt*. Ffynhonell y stori yw chwedlau llafar gwlad Norwyaidd am rapscaliwn o'r enw Peer Gynt oedd yn dweud straeon celwydd golau. Fe'i hysgrifennwyd mewn barddoniaeth, a hi oedd un o'r gweithiau cyntaf i ddod â theatr Gwledydd Llychlyn i sylw gweddill y byd. Mae hi'n wahanol i'r math o waith gan Ibsen a welir fel arfer ar lwyfannau Cymru, am nad dull naurioliaidd sydd iddi, ond yn hytrach un swrealaidd, gyda chadwyn o olygfeydd neu ddelweddau'n cyflwyno hanes Peer.

Yn hynny o beth, mae *Peer Gynt* yn gyfrwng delfrydol i gwmni Theatrig ac i'w cyfarwyddwr mentrus a dawnus Ceri Sherlock. Heb setiau rhwysgfawr, heb ymffrost ac yn ddiymhongar, aeth y cwmni bychan yma ati i wneud job o waith arbennig, a hoeliai sylw'r gynulleidfa fechan drwy gydol y perfformiad pedair awr, er gwaetha'r oerfel yn y theatr.

Mae rhan gynta'r ddrama'n ymwneud â ieuenctid Peer, ac â'i ymweliad â gwlad y Trols. Mae'n dianc oddi yno drwy 'fynd o gylch' ac mae'r ymadrodd hwn yn adleisio drwy weddill y ddrama fel arwydd o amharodrwydd Peer i wynebu problemau'n uniongyrchol. Alun Elidir oedd yn chwarae rhan Peer. Llwyddodd i gyfuno yn yr hanner cyntaf hwn egotistiaeth ddi-hid y cymeriad, gan gadw eto ei nodweddion hoffus bachgennaidd.

Erbyn yr ail a'r drydedd rhan, fodd bynnag, fe welir Peer yn ddyn, wedi mynd yn fasnachwr llwyddiannus mewn gwlad dramor ac wedi colli pob nodwedd hoffus, hyd nes iddo ddychwelyd yn hen wr (ar ôl pererindod ysbrydol drwy fôr a choedwig swreal) i freichiau Solfei, y ferch a fu'n disgwyl amdano mewn caban pren yn y goedwig. 'Roedd perfformiad Rhian Morgan yn rhan Solfei yn dawel a grymus. Un o uchafbwyntiau'r cynhyrchiad oedd ei chân hi wrth aros am Peer.

Yn y cynhyrchiad gwreiddiol, 'roedd cerddoriaeth achlysurol gan Grieg. Cadwyd hyn ym mherfformiad Theatrig, ond o dâp yn hytrach nag o gerddorfa y daeth hi. Os rhywbeth, 'roedd hyn yn ychwanegu at rym y cynhyrchiad drwy ymwrthod â rhwysg. 'Roedd y naws yn debycach i egni ac asbri anterliwt na dim arall.

Mae'n amheus a fuasai Ibsen ei hun wedi cymeradwyo rhai o'r pethau a wnaeth y cynhyrchydd gyda'i ddrama. Cafwyd Sid Vicious yn bloeddio *I Did It My Way* ar draws dawns y Trols, a threuliodd peth o'r cast ran helaeth o ail hanner y ddrama yn gwylio fideo distaw o gyngerdd *Live Aid*, tra bo'r ddrama yn mynd yn ei blaen. Rhaid cyfaddef na lwyddodd yr effaith arbennig hwnnw, er gwaetha'r amseru perffaith a olygai fod Peer y cyfalafwr yn cwyno bod eisiau bwyd arno ar yr un pryd ag y gwelwyd plant bychain Ethiopia'n newynnu ar y fideo.

Cafwyd, fodd bynnag, effeithiau eraill oedd yn fwy llwyddiannus. Ar ddechrau'r ail ran, rhoddwyd cwmni Thatcher, Reagan, Tebbit a Botha i Peer y gwerthwr arfau rhyngwladol. Datruswyd y cwestiwn pam oedd llun mawr o Ibsen ar gefn y llwyfan pan gyflwynwyd ef fel y Sffincs ar ganol yr ail ran. Dyma fflach o hiwmor eironig gan y cynhyrchydd oedd yn taflu golwg newydd ar alegoriau amwys Ibsen megis golygfa'r 'nionyn.

Gellid efallai beirniadu'r effeithiau hyn fel gimics, ond annheg fyddai hynny. Llwyddiant y cynhyrchiad hwn oedd ei allu i gyfuno prinder adnoddau theatrig gyda chyfoeth byrlymus o syniadau oedd yn ysgogi'r meddwl. Yr unig drueni oedd na fentrodd rhagor o bobl drwy'r oerfel i'r dociau i weld y cynhyrchiad cofiadwy hwn.

Emyr Lewis



Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath,
CAERDYDD.
Ffôn 484816



***Cyfeiriad newydd**


# LLWYDDIANT LLANHARRI

Yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Clwb Rotari Llantrisant cipiwyd y wobr gyntaf gan Ysgol Gyfun Llanhari. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Ysgol Gyfun Tonyrefail nos Iau, Ionawr 29ain, a chymerwyd rhan gan Ysgolion Cyfun Tonyrefail, Bryn Celynnog a Llanhari. Testun dadl tîm Ysgol Llanhari oedd, "This house believes in the restoration of capital punishment". Yn siarad o blaid y cynnig yr oedd Rhodri Evans, yn siarad yn erbyn y cynnig yr oedd Catherine Pike, a Chadeirydd y ddadl oedd Huw Griffiths. Derbyniodd y tîm ganmoliaeth uchel. Yn ogystal ag ennill y wobr gyntaf am dîm dadlau gorau'r noson, dyfarnwyd y wobr gyntaf am siaradwr unigol gorau'r noson hefyd i Lanhari, i Rhodri Evans. Y mae Rhodri'n dod o Feisgyn, Catherine o Laniltud Faerdref a Huw o Faesteg. Bydd y tîm yn mynd ymlaen yn awr i rownd nesaf y gystadleuaeth a gynhelir yn y Barri, Mawrth 18ed.





Mae HTV Cymru bob amser yn chwilio am dalentau newydd; ac felly yr ydym yn cynnal gwrandawiadau ar gyfer cyflwynwyr rhaglenni a chyfrannwyr yn **Y Ganolfan Deledu, Caerdydd** ar **ddydd Iau** a **Gwener, Mawrth 12** a **13, 1987**

**Gwnewch enw i chi eich hun**

trwy alw Caerdydd (0222) 590468
rhwng 10.30am a 3.30pm Llun i Gwener,
neu ysgrifennu at:

Yr Uned Wrandawiadau,
HTV Cyf.,
Y Ganolfan Deledu,
Croes Cwrlwys,
Caerdydd CF5 6XJ.

HTV CYMRU